O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 109 (C. 9)

Gorchymyn Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026 (Cychwyn Rhif 1) 2026

Gwnaed *24 Mehefin 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 109 (C. 9)

The Bus Services (Wales) Act 2026 (Commencement No. 1) Order 2026

Made *24 June 2026*

£6.40

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 109 (C. 9)

TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS I DEITHWYR, CYMRU

Gorchymyn Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026 (Cychwyn Rhif 1) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Y Gorchymyn hwn yw'r gorchymyn cychwyn cyntaf a wneir o dan Ddeddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026 ("y Ddeddf").

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym adrannau 5(1)(a), (b), (2) a (3), 6, 7, 8, 9 a 34 o'r Ddeddf ar 30 Mehefin 2026. Mae adrannau 5(1)(a), (b), (2) a (3), 6, 7, 8 a 9 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â llunio Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru, ei gyhoeddi, ei adolygu a'i ddiwygio. Mae adran 5(6) a (7) eisoes mewn grym yn unol ag adran 48(1)(b) o'r Ddeddf. Mae adran 34 yn diwygio adran 66 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 i eithrio awdurdodau lleol yng Nghymru rhag y cyfyngiad, a osodir gan yr adran honno, mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau bysiau lleol gan awdurdod lleol.

2026 Rhif 109 (C. 9)

TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS I DEITHWYR, CYMRU

Gorchymyn Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026 (Cychwyn Rhif 1) 2026

Gwnaed *24 Mehefin 2026*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 48(3) o Ddeddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026(**1**).

Enwi

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026 (Cychwyn Rhif 1) 2026.

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 30 Mehefin 2026

2. Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026 i rym ar 30 Mehefin 2026—

(a) adran 5(1)(a), (b), (2) a (3) (gwasanaethau bysiau lleol: dyletswyddau craidd);

(b) adran 6 (llunio Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru);

(c) adran 7 (adolygu a diwygio Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru);

(d) adran 8 (darpariaeth bellach ynghylch diwygiadau i Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru);

(e) adran 9 (diwygio Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru: dyletswyddau awdurdod lleol);

(f) adran 34 (darparu gwasanaethau bysiau gan awdurdodau lleol: dileu'r cyfyngiad).

(**1**) 2026 dsc 2.

Mark Hooper
Y Dirprwy Weinidog dros Drafnidiaeth o dan awdurdod Y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, un o Weinidogion Cymru
24 Mehefin 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 109 (C. 9)

PUBLIC PASSENGER TRANSPORT, WALES

The Bus Services (Wales) Act 2026 (Commencement No. 1) Order 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order is the first commencement order made under the Bus Services (Wales) Act 2026 ("the Act").

This Order brings sections 5(1)(a), (b), (2) and (3), 6, 7, 8, 9 and 34 of the Act into force on 30 June 2026. Sections 5(1)(a), (b), (2) and (3), 6, 7, 8 and 9 make provision in relation to the preparation, publication, review and revision of the Welsh Bus Network Plan. Section 5(6) and (7) is already in force in accordance with section 48(1)(b) of the Act. Section 34 amends section 66 of the Transport Act 1985 to exclude local authorities in Wales from the restriction, imposed by that section, in respect of the provision of local bus services by a local authority.

2026 No. 109 (C. 9)

PUBLIC PASSENGER TRANSPORT, WALES

The Bus Services (Wales) Act 2026 (Commencement No. 1) Order 2026

Made *24 June 2026*

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the power conferred on them by section 48(3) of the Bus Services (Wales) Act 2026(**1**).

Title

1. The title of this Order is the Bus Services (Wales) Act 2026 (Commencement No. 1) Order 2026.

Provisions coming into force on 30 June 2026

2. The following provisions of the Bus Services (Wales) Act 2026 come into force on 30 June 2026—

(a) section 5(1)(a), (b), (2) and (3) (local bus services: core duties);

(b) section 6 (preparation of the Welsh Bus Network Plan);

(c) section 7 (review and revision of the Welsh Bus Network Plan);

(d) section 8 (further provision about revisions to the Welsh Bus Network Plan);

(e) section 9 (revision of the Welsh Bus Network Plan: local authority duties);

(f) section 34 (provision of bus services by local authorities: removal of restriction).

Mark Hooper
Deputy Minister for Transport under authority of the Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy, one of the Welsh Ministers
24 June 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

(**1**) 2026 asc 2.

williams lea | tso
An RRD Company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), part of Williams Lea,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839880-9

9 780348 398809